**Cofnodion Cyfarfod o Bwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr ABERAERON a gynhaliwyd o bell trwy fideogynadledda ddydd Iau, 21 Mawrth 2024**

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ceredigion:** Y Cynghorydd Keith Henson (Cadeirydd), Y Cynghorydd Elizabeth Evans, Y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans a'r Cynghorydd Matthew Vaux

**Swyddogion yn bresennol:** Owen Morgan, Katy Spain a Dana Jones

**Defnyddwyr yr Harbwr**: Chris Seal, Martin Seal, Julian Driver, Owen Stephen Webb, Carl Rich, Jonathan Price Jones, Roger Crouch, Brett Stones

(5.30pm – 6.30pm)

1. **Ymddiheuriadau**
   Ymddiheurodd David Nicholson am na fedrai ddod i'r cyfarfod.

2. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2023**
   CYTUNWYD bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2023 yn gywir.

   **Materion yn Codi**
   Cofnod 5(i) Soniodd y Cynghorydd Elizabeth Evans am yr ymateb yr oedd wedi'i dderbyn i'w chwestiwn ynglŷn â chodi tâl am angori ar y blaendraeth a'r harbwr a oedd yn rhan o Ystadau'r Goron. Dywedodd fod y Gwasanaeth wedi rhoi gwybod iddi fod tâl yn cael ei godi arnynt am mai gwasanaeth cyffredinol oedd hwn nad oedd yn cael ei ystyried yn rhywbeth unigol.

   Cofnod 5(v) Nid oedd Dŵr Cymru wedi atgyweirio'r twll archwilio wrth ymyl swyddfa Rheolwr yr Harbyrau a'r llithrfa. Pwysleisiodd y Cynghorydd Elizabeth Evans fod angen gwneud y gwaith hwn ar frys. Dywedodd Owen Morgan nad oedd y mater hwn o fewn cylch gwaith y Gwasanaeth Harbyrau ond bod ei gydweithwyr yn y Gwasanaeth Ystadau yn mynd ar drywydd hyn gan y deallir bod Dŵr Cymru yn gwrthod derbyn unrhyw gyfrifoldeb am yr ased a'r mater dan sylw.

3. **Diweddariad gan y Gwasanaeth Harbyrau**

   - Cyflwynodd Rheolwr yr Harbyrau gynllun diagramegol o'r trefniadau dros dro o ran Cymhorthion Mordwyo (AtoNs) a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith Amddiffyn yr Arfordir yn Aberaeron. Pwysleisiwyd na ddylid ei ddefnyddio ar gyfer mordwyo. Byddai copi o'r diagram yn cael ei ddosbarthu ar ffurf Hysbysiad Lleol i Forwyr maes o law. Awgrymwyd y gallai'r Clwb Hwylio hefyd arddangos y diagram a dywedodd Rheolwr yr Harbyrau wrth y Clwb Hwylio y byddai'n barod i ddod i siarad â'r aelodau pe byddent yn teimlo y byddai hynny'n fuddiol.

- Byddai arwyddion yn cael eu gosod i hysbysu’r cyhoedd bod harbwr Aberaeron yn harbwr gweithredol ag iddo arwynebau anwastad a pheryglon posibl eraill.
- Dywedodd Rheolwr yr Harbyrau fod Trinity House wedi archwilio prosesau’r Cyngor o ran Cymhorthion Mordwyo (AtoNs) a’i fod wedi canfod bod y prosesau hyn yn briodol.

4. **Rhestr Aros am Angorfa**

Cytunwyd i nodi’r rhestr aros am angorfa fel y’i cyflwynwyd. Cadarnhaodd y swyddogion fod gwaith yn cael ei wneud i ddiwygio'r rhestr fel y gellid cynnwys rhagor o fanylion e.e. statws preswyl, math o gychod a maint y cychod.

Nodwyd hefyd y byddai'r rhestrau aros yn awr ar agor i ymgeiswyr newydd ac na fyddai'r ffioedd i newydd-ddyfodiaid ar gyfer ymuno â'r rhestrau aros bellach yn cael eu defnyddio fel credyd tuag at ffioedd angori'r flwyddyn gyntaf ar ôl i’r angorfa gael ei dyrannu iddynt.

**5. Cynnal a Chadw a Glanweithdra Cyffredinol**

- Roedd y rhaglen archwiliadau wedi nodi bod angen gwneud rhywfaint o waith cynnal a chadw ac atgyweirio ar rai o asedau'r harbyrau, ac roedd y rhain wedi'u hystyried a'u blaenoriaethu. Byddai trefniadau caffael yn cael eu rhoi ar waith a byddai'r gwaith yn cael ei wneud yn unol â'r blaenoriaethau a bennwyd a'r gyllideb a oedd ar gael.

- Cynhaliwyd ymarfer caffael i gyflawni'r gwaith oedd angen ei wneud ar yr ysgolion a rhagwelwyd y byddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd.

- Roedd disgwyl i archwiliad o wal yr harbwr a dolenni sefydlog yr angorfeydd ar y llithrfa gael ei gynnal er mwyn nodi unrhyw waith cynnal a chadw y gallai fod angen ei wneud.

- Codwyd pryderon am yr amser yr oedd yn ei gymryd i fwrw ymlaen â threfniadau caffael rhywfaint o'r gwaith a oedd yn cael ei wneud. Cydnabuwyd bod oedi oherwydd prinder capasiti o fewn gwasanaethau caffael y Cyngor a bod hyn hefyd yn rhwystredig i’r Swyddogion. Cadarnhawyd y byddai’r Swyddogion yn ymgysylltu â'r gwasanaeth caffael gyda'r bwriad o nodi opsiynau i wella’r amserlenni gan gynnwys y posibilrwydd o ddatblygu fframwaith priodol.

- Byddai swyddogion hefyd yn cysylltu â’r gwasanaeth caffael i weld a fyddai’n bosibl cynnwys y gwaith ar bolion cyfeirio ar y llithrffordd fel amrywiad i'r fanyleb

ynghylch atgyweirio'r ysgolion (yn amodol ar y ffaith bod y contractwr yn derbyn hyn a'i fod yn darparu dyfynbris rhesymol ar gyfer y gwaith ychwanegol).

- Soniwyd am yr algâu a oedd yn tyfu ar y brif lithrffordd a gofynnwyd a fyddai modd cymryd camau i gael gwared ar yr algâu. Dywedodd Rheolwr yr Harbyrau fod tyfiant algâu yn gyffredin yr adeg hon o'r flwyddyn ac yn anffodus nid oedd y dulliau traddodiadol o gael gwared ar y tyfiant a oedd yn golygu defnyddio cemegau bellach yn dderbyniol i Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd trefniadau ar y gweill i staff yr harbyrau wneud rhywfaint o waith gan ddefnyddio brwshys weiars ar y llithrfa yn ystod yr wythnosau nesaf a byddai mwy o'r gwaith hwn yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn yn ôl yr angen.

**6. Materion a godwyd gan Ddefnyddwyr yr Harbwr**

- Cafwyd trafodaeth am y ffioedd lansio ar gyfer cychod sy'n ymweld â'r harbwr am y diwrnod ac roedd rhai o'r aelodau a oedd yn bresennol o'r farn fod nifer sylweddol yn lansio eu cychod heb dalu'r ffi briodol. Roedd rhai o'r aelodau hefyd yn teimlo nad oedd y trefniadau presennol ar gyfer talu drwy Clic yn ddigonol. Roedd swyddogion yn cydnabod y gallai lansiadau ddigwydd pan nad oedd staff yr Harbyrau yn bresennol, ond bod trwyddedau lansio blynyddol gan rai a oedd yn caniatáu iddynt lansio yn unrhyw un o Harbyrau'r Cyngor.

  Dywedodd Rheolwr yr Harbyrau fod lefel y lansiadau a nodwyd gan y gwasanaeth ar gyfer cychod sy'n ymweld â'r harbwr am y diwrnod yn hanesyddol isel ac y byddai'n croesawu gwybodaeth bellach mewn perthynas â honiadau bod nifer sylweddol yn lansio eu cychod heb dalu fel y gellid gwneud penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch y trefniadau ar gyfer lleoli swyddogion y gwasanaeth yn y swyddfeydd. Ar y cyd â swyddogion y Gwasanaeth Cyllid, byddai'r Gwasanaeth Harbyrau yn ymchwilio i weld a allai fod yn bosibl gwella'r opsiynau a oedd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer talu gan gyflwyno peiriannau talu â cherdyn yn swyddfeydd yr Harbyrau.

- Gofynnwyd pa bryd y byddai'r staff yn swyddfeydd yr Harbyrau ac a fyddai yna bresenoldeb ar benwythnosau. Cadarnhawyd mai'r bwriad oedd lleoli staff yn swyddfeydd yr harbyrau yn Aberaeron a Chei Newydd ar benwythnosau ar ôl i'r Cynorthwywyr Harbyrau Tymhorol ddechrau yn eu swyddi (cyn belled ag y bo neb yn absennol oherwydd salwch).

- Gofynnodd Chris Seal am ymateb i'r cwestiynau yr oedd wedi'u hanfon o'r blaen a dywedodd nad oedd wedi derbyn ymateb iddynt. Dywedodd Rheolwr yr Harbyrau bod ymateb wedi ei anfon ato ond y byddai'n anfon yr ymateb unwaith eto.

Dywedodd Chris Seal ei fod yn anhapus nad oedd y cwestiynau oedd ganddo wedi'u cynnwys fel eitemau ffurfiol ar gyfer y cyfarfod hwn ac aeth ati i'w codi. Darllenwyd y cwestiwn canlynol i bawb yn y cyfarfod:

‘Yn dilyn yr Ymgynghoriad Ar-lein a gynhaliwyd yn ddiweddar, pam na wnaed newidiadau radical i’r Polisi Rheoli Harbyrau o ystyried bod 85% o'r ymatebwyr wedi gwrthod y polisi drafft. Pwy wnaeth y penderfyniad i fwrw ymlaen â’r polisi er gwaetha’r gwrthwynebiad?

Wrth ymateb, cadarnhaodd y Swyddogion fod manylion llawn yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u cyflwyno i’r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet. Fel rhan o'r broses ddemocrataidd, gall y Pwyllgor Craffu perthnasol wneud argymhellion i'r Cabinet (fel y digwyddodd yn achos y Polisi Rheoli Harbyrau) ond yn y pen draw, y Cabinet sy’n gwneud y penderfyniadau ynghylch a ddylid derbyn yr argymhellion hyn (fel y digwyddodd yn achos yr argymhellion ynghylch y Polisi Rheoli Harbyrau) a’r penderfyniadau ynghylch cynnwys unrhyw bolisi a’r ffordd y mae’n cael ei roi ar waith.

- Hefyd, cododd Mr Seal fater arall sef y gallu i etifeddu’r hawl i ddefnyddio angorfeydd hamdden, a hynny ar ôl i’r hawl honno gael ei thynnu o’r Polisi Harbyrau. Dywedodd Mr Seal nad oedd yn cytuno â’r newid hwn. Bu i’r swyddogion gydnabod nad oedd pob un o’r rhanddeiliaid yn cytuno â'r holl newidiadau a wnaed i'r Polisi ond bod y Cabinet wedi penderfynu rhoi’r Polisi diwygiedig ar waith. Y rheswm dros wneud y newid hwn oedd y byddai'n sicrhau bod y rheini ar y rhestr aros yn medru cael gwell mynediad i’r angorfeydd, ac roedd hyn eisoes wedi'i amlinellu yn yr adroddiadau i’r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet.

- Gofynnodd Chris Seal am ymateb i gwestiwn arall yr oedd wedi ei ofyn. Roedd ymateb eisoes wedi’i ddarparu iddo y tu allan i’r cyfarfod ond roedd Mr Seal am i’r ymateb gael ei roi iddo yn y cyfarfod fel y gallai pob aelod o’r Pwyllgor ei glywed.

" Pa wasanaethau a swyddogaethau yn gwmws y mae’r ‘Ffi Weinyddol newydd ar gyfer Angori’ yn eu hariannu?”

Wrth ymateb, cadarnhaodd y swyddogion nad oedd y ffi yn un newydd. Roedd y ffi yn rhan o’r ffioedd cyffredinol sy’n gysylltiedig â cheisiadau am angorfeydd ac roedd yn cyfrannu at ariannu’r costau sy’n gysylltiedig â darparu’r gwasanaeth harbyrau gan gynnwys y tasgau gweinyddol sy’n ymwneud â cheisiadau am angorfeydd.  Yn y pen draw, pe na bai'r ffi hon yn bodoli, byddai'r ffi fesul metr yn cael ei chynyddu er mwyn cynhyrchu’r incwm a oedd yn cael ei chreu ar hyn o bryd gan yr elfen hon o’r strwythur codi tâl.

Dywedodd y Cynghorydd Elizabeth Evans mai ei dealltwriaeth hi oedd bod ffi wedi'i chyflwyno yn lle pàs maes parcio, yn dilyn trafodaeth rhwng Defnyddwyr yr Harbwr a'r Swyddogion (dros 10 mlynedd yn ôl). Roedd swyddogion yn cydnabod y byddai rhai rhanddeiliaid yn siomedig nad oedd y trwyddedau yn cael eu rhoi mwyach. Cytunwyd i nodi'r sefyllfa bresennol o 01 Ebrill 2024 ymlaen.